

NEWYDDLLEN CWRICWLWM DOSBARTH DWYNWEN

Tymor yr Haf 2016

Y tymor hwn bydd Dosbarth Dwynwen yn astudio y thema 'Rownd y Byd yn y Ras Falwnau Orau Erioed' o fewn y chwech Maes Dysgu.

Amcan y Cyfnod Sylfaen yw cyfoethogi'r profiadau dysgu sy'n galluogi'r plant i fod yn greadigol, defnyddio'u dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu. Caiff plant fwy o gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas trwy weithredu gweithgareddau strwythuredig a fydd yn ysgogi ac yn annog y disgyblion i fod yn ddysgwyr effeithiol.


O fewn y Cyfnod Sylfaen mae rôl y plant yn allweddol bwysig wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm.

Maent yn cyd-weithio'n agos gyda'r athrawon i gynhyrchu syniadau er mwyn creu mapiau meddwl ar themau penodol. Caiff y map meddwl ei ddefnyddio fel arf bwysig i dargedu sgiliau penodol o fewn y chwech Maes Dysgu (Iaith, Mathemateg, Gwybodath a Dealltwriaeth o'r Byd,

Datblygiad Creadigol, Datblygiad Corfforol, Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol) er mwyn:

- Asesu Gwybodaeth a Dealltwriaeth
- Rhannu syniadau a maethu gwaith grŵp
- Gwneud cysylltiadau rhwng cysyniadau
- Atgyfnerthu profiadau blaenorol
- Herio sgiliau meddwl ac ymestyn y dysgu

Dyma gopi o Fap Meddwl 'Rownd y Byd yn y Ras Falwnau Orau Erioed' ar gyfer y tymor hwn:



Mewn gwersi iaith bydd y dosbarth yn canolbwyntio ar y canlynol :-

Broliant Adroddiad

Stori-Ailadrodd digwyddiadau yn nhrefn amser (dull Pie Corbett).

Mewn gwersi Mathemateg bydd y dosbarth yn canolbwyntio ar y canlynol :-

Cynhwysedd Arian Amser Cymesuredd

Sesiynau Sgiliau Sylfaenol:

Cynhelir sesiynau dyddiol lle mae'r plant yn cael y cyfle i ddatblygu ei sgiliau sylfaenol. Gwneir hyn trwy'r gweithgareddau canlynol:-

- Dwlu Darllen (bydd y ffocws ar Ddarllen ac Ysgrifennu)
- Miri Mathemateg (bydd y ffocws ar waith Rhif)
- Llawysgrifen/Bysedd Bach
- Rhif y Dydd
- Darllen dan Arweiniad

Gwybodaeth ychwanegol

Gwaith cartref— Mae amrywiaeth o weithgareddau yn y llyfr cyswllt er enghraifft; bondiau rhif, geiriau allweddol. Gallwch ymarfer rhain gyda'ch plentyn er mwyn datblygu sgiliau angenrheidiol.

Llyfrau darllen— Os oes gan eich plentyn lyfr darllen mae angen ei ddychwelyd i'r ysgol yn ddyddiol.

Addysg Gorfforol— Dydd Mercher (Crys-t gwyn, siorts/trowsus ymarfer corff ac esgidiau ymarfer corff os yn bosibl os gwelwch yn dda).

Mae croeso i chi ddanfôn arteffactau/gwybodaeth/llyfrau a.y.b yn seiliedig ar y thema i gynorthwyo gwaith dysgu eich plentyn.